Diwygio Cymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Adeiladu'r dyfodol

Adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yw un o'r sectorau cyflogaeth pwysicaf yng Nghymru.

Mae cyfres newydd o gymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yn cael eu datblygu er mwyn diwallu anghenion sgiliau Cymru ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion, colegau ac ar brentisiaethau. Gan ddechrau ym mis Medi 2021, bydd y cymwysterau newydd yn cynig dilyniant clir o ddysgu i gyflogaeth yn y sector.

SYMLEIDDIO TIRWEDD GYMHLETH O RAN CYMWYSTERAU

Nod y newid yw symleiddio'r dirwedd gymhleth o fwy na 400 o gymwysterau mewn adeiladu a gwasanaethau adeiladu yng Nghymru a sicrhau bod dysgwyr yn cael eu paratoi'n well ar gyfer gyrfaoedd ar draws y sector.

Bydd mwy o bwyslais ar dechnegau newydd a thraddodiadol, ar wybodaeth am y diwydiant yn ei gyfanrwydd ac ar y sgiliau generig sydd eu hangen er mwyn symud ymlaen i waith o faes addysg.

Mae City & Guilds, EAL a CBAC yn gweithio ar y cyd i ddarparu'r gyfres newydd o gymwysterau. Mae CBAC yn dod â'u harbenigedd i ddatblygiad y cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd. Mae City & Guilds yn gweithio gyda EAL, i ddatblygu cymwysterau Sylfaen, Dilyniant a Phrentisiaeth newydd, gan ddod â chryfder dau gorff dyfarnu sy'n arwain y farchnad o ran cymwysterau galwedigaethol ynghyd er mwyn cefnogi amrywiaeth eang o grefftau mewn adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu.

GWEITHIO GYDA RHANDDEILIAID YN Y DIWYDIANT

Mae cynrychiolwyr y diwydiant yn bwysig i lwyddiant y gyfres newydd hon o gymwysterau. Mae'r wybodaeth a'r cymwyseddau sy'n cael eu cynnwys yn y cymwysterau'n cael eu llunio gan gyflogwyr yng Nghymru.

Drwy weithio gyda CITB, BESA, ECA, APHC a Cadw ymysg eraill, byddwn yn sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn berthnasol i'r hyn sydd ei angen ar y diwydiant o ran eu recriwtiaid, gan leihau'r angen am ailhyfforddi unwaith y bydd dysgwr yn symud i fyd gwaith.

Y CYMWYSTERAU

Iaith Gymraeg Lewyrchus. Bydd llawer o ddysgwyr yn dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae ein cymwysterau a'n cymwysterau prentisiaeth yn helpu i rymuso ein cenedl ddwyieithog drwy sicrhau y bydd posibl i bob dysgwr gael ei asesu yn y Gymraeg a/neu'r Saesneg. Bydd deunydd cymorth swyddogol ar gyfer y cymwysterau hefyd yn cael ei ddarparu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd cymwysterau TGAU ac UG/Safon Uwch Amgylchedd Adeiledig newydd yn cael eu cyflwyno mewn ysgolion a cholegau. Mae'r cymwysterau hyn yn rhoi blas o sgiliau ymarferol ac yn cyflwyno gwybodaeth a dealltwriaeth o adeiladau a'r diwydiant adeiladu a fydd yn werthfawr i ddysgwyr sy'n mynd ymlaen i addysg bellach neu uwch. Bydd y lefel UG/Safon Uwch newydd arloesol o ran darparu llwybr newydd cyffrous i raglenni gradd fel tirfesur, pensaernïaeth a rheoli adeiladu.

Bydd y cymhwyster Sylfaen newydd mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yn rhoi cyflwyniad eang i ddysgwyr i'r sector cyfan, gan gynnwys datblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a'u gallu i gyflawni tasgau mewn ffyrdd sy'n diogelu iechyd, diogelwch a llesiant. Bydd y dysgwyr hefyd yn datblygu sgiliau ymarferol rhagarweiniol mewn dau faes crefft, gan eu galluogi i wneud dewis gwybodus ynglŷn â'u crefft yn y dyfodol a defnyddio'r sgiliau hyn yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Ar ôl cwblhau'r Sylfaen, bydd dysgwyr wedi eu paratoi'n dda ar gyfer dechrau prentisiaeth. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer astudio'n llawn amser a bydd yn cael ei ddyfarnu ar lefel 2.

Argymhellir y cymhwyster Sylfaen hefyd ar gyfer ymgeiswyr uniongyrchol i mewn i brentisiaeth – er y bydd cymhwyster byrrach, y Craidd mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig hefyd ar gael i'r grŵp hwn o ddysgwyr os nad ydynt yn gallu astudio mwy nag un maes crefft. Dyfernir y cymhwyster Dilyniant hefyd ar lefel 2.

Mae'r Cymhwyster Dilyniant yn darparu llwybr i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau ymhellach mewn addysg bellach am flwyddyn arall, os nad ydynt yn symud ymlaen yn uniongyrchol i brentisiaeth ar ôl cwblhau eu cymhwyster Sylfaen. Mae dysgwyr yn arbenigo mewn un grefft, gan ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o arfer cyfredol yn y grefft a newidiadau dros amser, tra hefyd yn parhau i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd ehangach. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer ei astudio'n llawn amser, er y bydd o fudd mawr i ddysgwyr os yw canolfannau'n gallu trefnu profiad gwaith i ddysgwyr ar y cwrs hwn. Ni fydd unrhyw brofiad gwaith o'r fath yn cael ei asesu yn y cymhwyster. Dyfernir y cymhwyster Dilyniant hefyd ar lefel 2.

Mae'r Cymhwyster Prentisiaeth yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn prentisiaeth dwy, tair neu bedair blynedd. Mae'n caniatáu i ddysgwyr ddangos ystod eu gwybodaeth dechnegol, eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn eu crefft arbenigol yn ôl y safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer y grefft honno. Bydd dysgwyr hefyd yn astudio arferion y sector yng Nghymru. Fel arfer, bydd prentisiaid yn cael eu rhyddhau i fynychu coleg neu ddarparwr dysgu arall fesul diwrnod neu floc, er mwyn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

Adeiladu'r dyfodol

CYMWYSTERAU CYMRU QUALIFICATIONS WALES

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cymwysterau hyn ymunwch â rhestr bost cylchlythyr Y Llechen

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â gwefannau Sgiliau i Gymru a CBAC